

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 16 Tachwedd, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#). [Insert link]

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#). [Insert link]

Yn Bresennol: Y Cyngorydd B.E. Brooks (Cadeirydd); Cyngorydd S. Sivagnanam (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr V.J. Bailey, P. Drake, V.P. Driscoll, G. John, M.J.G. Morgan, A.R. Robertson, L.O. Rowlands a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth), N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cyngorydd Driscoll fuddiant ynghlwm ag Eitem 6 ar yr Agenda - Archwilydd Cyffredinol Cymru: Adolygiad o Adfywio Canol Trefi yng Nghymru. Natur y buddiant oedd bod y Cyngorydd Driscoll yn berchen ar sawl eiddo ar Heol Holltwn. Oherwydd natur y diddordeb, tynnodd y Cyngorydd Driscoll yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

AGENDA ITEM 4. CYFLWYNIAD - DIWEDDARIAD BLYNYDDOL MONITRO ARFORDIROL -

ARGYMHELLWYD – BOD y cyflwyniad ar y Diweddariad Blynyddol ar Fonitro'r Arfordir yn cael ei nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

AGENDA ITEM 5. PROSIECT SERO – CYFLAWNI'R CYNLLUN HER
NEWID HINSAWDD (CYF) -

ARGYMHELLWYD – BOD adroddiadau pellach ar Brosiect Sero yn cael eu darparu i'r Cabinet deirgwaith y flwyddyn, gyda'r adroddiadau wedyn yn cael eu cyfeirio at Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w hystyried.

Rheswm dros yr argymhelliad

Galluogi'r Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a Phwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i ystyried deirgwaith y flwyddyn sut mae Prosiect Sero yn cael ei ddatblygu.

AGENDA ITEM 6. ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU: ADOLYGIAD O
ADFYWIO CANOL Y DREF YNG NGHYMRU (RG) –

ARGYMHELLWYD -

(1) BOD y canfyddiadau allweddol sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Adfywio Canol Trefi (Atodiad A) ac ymateb y Cyngor i'r adolygiad ac argymhellion Archwilio Cymru (Atodiad B) yn cael eu cymeradwyo.

(2) BOD yr adroddiad hwn yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ac yna i'r Cabinet i gymeradwyo'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol i adolygiadau lleol a chenedlaethol ac yn gweithredu meysydd i'w gwella fel y nodwyd gan Archwilio Cymru.